15 Rhagfyr 2023

Annwyl bawb,

## Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer 2024-25

Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol (‘y Bwrdd’) yn adolygu ei Benderfyniad[1] bob blwyddyn i sicrhau bod y cymorth a roddir i'r Aelodau yn parhau'n briodol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau bod lefel y cyflog a'r system cymorth ariannol ar gyfer Aelodau yn ddigonol i’w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau, yn ogystal â sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwariant arian cyhoeddus.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi cynigion ar gyfer newidiadau i'r Penderfyniad y mae angen cytuno arnynt cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf, er mwyn galluogi'r Aelodau i gynllunio eu gwariant a sicrhau bod cyllidebau'r Aelodau yn parhau i ddiwallu eu hanghenion busnes, o ystyried pwysau chwyddiant.

Er bod chwyddiant wedi gostwng yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r Bwrdd yn cydnabod yr effaith y mae hyn wedi'i chael ar gyllidebau'r Aelodau a'r heriau y mae Aelodau a staff yn parhau i'w hwynebu o ganlyniad i gostau byw cynyddol. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys nifer o gynigion sy'n ymwneud â chostau byw cynyddol, megis cynyddu'r symiau y gall Aelodau eu hawlio am gostau eu dyletswyddau a'u cyflogau. Mae'r Bwrdd eisoes wedi cymryd camau i liniaru’r costau byw cynyddol sy’n deillio o’r ffaith bod costau ynni a chostau bwyd yn parhau’n uchel, drwy gytuno ar daliad costau byw pro rata o £600 i staff yr Aelodau, i'w dalu yn y flwyddyn newydd.

Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn, mae'r Bwrdd yn cynnal cyfres o adolygiadau i sicrhau bod y ffordd y caiff costau busnes yr Aelodau eu had-dalu, a darpariaethau'r Penderfyniad, yn parhau i fod yn berthnasol i'w ffyrdd presennol o weithio. Mae'r rhain yn helpu'r Bwrdd i baratoi Penderfyniad newydd ar gyfer y Seithfed Senedd.

Mae un o'r adolygiadau hyn yn canolbwyntio ar symleiddio'r Penderfyniad i'w gwneud yn haws i Aelodau ei ddeall ac i swyddogion ei weinyddu. Mae rhai o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn

[1] gen-ld15775-w.pdf (bwrddtaliadau.cymru)

yn ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith ar symleiddio'r Penderfyniad ac mae newidiadau arfaethedig o ran geiriad, prosesau a rheolaethau wedi'u nodi a allai, os cânt eu dileu, arwain at ddefnyddio amser yr Aelodau a'u staff yn fwy effeithlon yn ystod y Chweched Senedd.

Mae cynigion eraill yn yr ymgynghoriad hwn yn deillio o’r adborth a gasglwyd o gyfarfodydd gydag Aelodau, Penaethiaid Staff o grwpiau gwleidyddol, cynrychiolwyr yr undebau a'r Prif Weithredwr a'r Clerc. Mae'r cynigion hefyd yn ymateb i sylwadau a glywodd aelodau’r Bwrdd gan staff yr Aelodau yn ystod eu hymweliadau â swyddfeydd yr etholaethau, ac ymatebion a roddwyd yn ystod ymgynghoriadau blaenorol fel rhan o’r adolygiad blynyddol. Mae aelodau'r Bwrdd yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cymryd yr amser i fynychu'r cyfarfodydd hyn, ymgysylltu â ni ar ymweliadau neu siarad â ni mewn sesiynau galw heibio.

Mae'r Bwrdd yn ymgynghori ar y cynigion fel y’u nodir isod, a byddem yn croesawu ymatebion **heb fod yn hwyrach na 17:00 ar 26 Ionawr 2024**. Mae'r broses ar gyfer cyflwyno ymateb a rhagor o wybodaeth am sut y caiff y wybodaeth honno ei thrin i’w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon. Dylech anfon unrhyw ymatebion at taliadau@senedd.cymru.

Yn gywir,



**Dr Elizabeth Haywood**

**Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

# Crynodeb o'r cynigion

*Cynnig 1: Newid geiriad paragraff 2.3.8. sy'n ymwneud â'r amserlenni y mae'n rhaid i Aelodau gyflwyno eu ceisiadau am ad-daliad yn unol â hwy. Byddai'r newid yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ddangos 'cyfiawnhad eithriadol' yn hytrach na 'chyfiawnhad rhesymol' dros gyflwyno cais yn hwyr. Hefyd, cynigir diwygio'r paragraff i egluro 'y bydd' ceisiadau hwyr yn cael eu gwrthod, er bod gan Aelodau yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw o hyd.*

*Dylid nodi: Bydd cyflogau'r Aelodau yn cynyddu 3% yn unol â'r mecanwaith 'cap a choler' ym mharagraff 3.2.2., fel y penderfynwyd yn flaenorol ar gyfer y Chweched Senedd.*

*Cynnig 2: Cynyddu'r swm y gellir ei ad-dalu i Aelodau am gostau gofal plant a chyfrifoldebau gofal eraill, fel y nodir ym mharagraff 3A.3.2. yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £5 agosaf y mis.*

*Cynnig 3: Cynyddu'r swm ym mharagraff 4.3.1. y caiff Aelodau – y mae eu cartrefi yn yr ardal fewnol, neu'r ardal ryngol – ei hawlio am lety dros nos. Bydd y ffigur newydd yn cynyddu yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf.*

*Cynnig 4: Cynyddu'r swm blynyddol ym mharagraff 4.4.3.(a) y caniateir ei hawlio am lety dros nos i Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal allanol, yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £5 agosaf y mis.*

*Cynnig 5: Cynyddu'r swm ym mharagraff 4.4.3.(h) y caiff Aelodau yn yr ardal allanol ei hawlio mewn cysylltiad â chyfrifoldebau gofal yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £5 agosaf.*

*Cynnig 6: Cynnal y swm y gellir ei hawlio ar gyfer costau adnewyddu hanfodol, ym mharagraff 4.4.10., ar £882.*

*Cynnig 7: Cynyddu'r swm, ym mharagraff 4.4.5., y caniateir ei hawlio am lety dros nos y tu allan i ardal Caerdydd yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf.*

*Cynnig 8: Diwygio cost aros dros nos yn adran 4.5 er mwyn dangos y cyfraddau ar gyfer cost ystafell yn unig heb gynnwys costau brecwast a pharcio. Hefyd, diwygio'r Penderfyniad er mwyn sicrhau bod yr uchafswm y gellir ei ad-dalu i Aelod am aros mewn gwesty fesul noson ym mharagraff 4.5.5. yn gymwys i gost gyfartalog fesul noson arhosiad mewn gwesty, pan fydd*

*nosweithiau olynol yn cael eu harchebu mewn un trafodiad, yn hytrach na'r gost am nosweithiau unigol.*

*Cynnig 9: Gwneud y rheolau ynghylch aros mewn gwesty yn gliriach fel y gall Aelodau hawlio am gost gwesty y tu allan i ardal Caerdydd os na allant ddod o hyd i westy yn ardal Caerdydd am resymau cost neu argaeledd yn ystod wythnos eistedd, at ddibenion cymryd rhan ym musnes y Senedd. Gellir hawlio'r gost hon o dan adrannau 4.2 (ardal fewnol) neu 4.3 (ardal ryngol) neu baragraff 4.4.8. (ardal allanol), yn ddarostyngedig i'r meini prawf arferol.*

*Cynnig 10:  Dileu'r gofyniad i Aelod ofyn am gytundeb ymlaen llaw gan Gomisiwn y Senedd cyn mynd i gostau am deithio ac aros dros nos y tu allan i Gymru, o fewn y DU.*

*Cynnig 11: Diwygio'r gofynion ar gyfer hawliadau teithio a llety rhyngwladol i ganiatáu i Aelod gyflwyno un achos busnes ar gyfer ymweliad y mae mwy nag un Aelod yn mynd arno, o dan baragraffau 4.5.3. a 5.15.2., yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i bob Aelod gyflwyno achos busnes unigol.*

*Cynnig 12: Datgan yn glir mai mater i Gomisiwn y Senedd yw trefniadau ac ad-daliadau ar gyfer costau llety ar gyfer busnes y pwyllgorau ac nad yw'r materion hyn yn rhan o gwmpas y Penderfyniad, gan adlewyrchu'r trefniadau sydd eisoes ar waith.*

*Cynnig 13: Cynyddu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, ym mharagraff 6.1.2., yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £10 agosaf.*

*Cynnig 14: Dileu'r gofyniad i Aelodau brynu neu logi llungopïwyr gan gyflenwyr cymeradwy yn unig, ym mharagraff 6.4.1.*

*Cynnig 15: Datgymhwyso'r cap ar gyflogau staff yr Aelodau ym mharagraff 7.3.2. a chynyddu'r tâl i staff yr Aelodau yn unol â ffigur yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) yng Nghymru, sef 5.7%, wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf. Byddai Lwfans Gwariant Staffio yr Aelodau, a nodir ym mharagraff 7.1.1., yn cynyddu o £121,759 i £130,602 i adlewyrchu'r dyfarniad cyflog.*

*Cynnig 16: Cynnwys darpariaeth yn y Penderfyniad i gynyddu'n awtomatig unrhyw bwynt cyflog staff sy'n is na'r cyflog byw gwirioneddol (fel y'i cyhoeddir yn flynyddol gan y Living Wage Foundation). Byddai'r ddarpariaeth yn darparu y dylid ystyried mai'r cyflog byw gwirioneddol yw'r gyfradd ar gyfer y pwynt cyflog hwnnw am weddill y flwyddyn ariannol, gan ddod i rym ar ddiwrnod cyntaf y mis yn dilyn y cyhoeddiad hwnnw.*

*Cynnig 17: Rhoi'r gorau i ganiatáu i Aelodau hawlio swm ar ran eu staff mewn cysylltiad â gweithio gartref, yn adran 7.9B., gan nodi bod taliad costau byw wedi'i ddyfarnu yn y flwyddyn ariannol hon o £600 ac y bydd taliad costau byw pellach o £600 yn cael ei ddyfarnu ym mis Ionawr 2024. Ystyrir bod hyn, ynghyd â'r cynnydd o £600 i'r bandiau cyflog, a gaiff ei gydgrynhoi o fis Ebrill 2024 ymlaen, a'r cynnydd i gyflogau staff yn unol â chanran ASHE Cymru, yn gyfraniad digonol tuag at wrthbwyso costau gweithio gartref.*[2]

*Cynnig 18: Diwygio'r rheolau ar gyfer staff yr Aelodau sy'n ymwneud ag amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus o dan adran 7.9A.2. fel bod uchafswm y diwrnodau y gellir eu cymryd mewn blwyddyn yn cyd-fynd â'r flwyddyn ariannol, yn hytrach na chyfnod treigl o 12 mis.*

*Cynnig 19: Datgan bod y cyfraddau uchaf ar gyfer ceisiadau am gostau teithio ac aros dros nos mewn gwesty ar gyfer staff yr Aelodau yr un fath â'r cyfraddau ar gyfer Aelodau.*

*Cynnig 20: Cynyddu cyfran y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol, ym mharagraff 8.2.1., a gaiff ei gwario ar gyflogau staff yn unol â chyfradd ASHE Cymru, sef 5.7%, gan dalgrynnu'r swm i'r £1 agosaf (a'r taliadau costau byw wedi'u cydgrynhoi a bennwyd yn flaenorol o £600), a'r gyfran a gaiff ei gwario ar gostau swyddfa yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr 2024, gan dalgrynnu'r swm i'r £10 agosaf.*

[2] Gall staff wneud cais yn uniongyrchol i CThEF am ryddhad treth ar gyfer gweithio gartref

# Cefndir

**1.** Wrth adolygu’r Penderfyniad ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (2024/25), ystyriodd y Bwrdd yr egwyddorion arweiniol a nodir yn adran 1.3A o’r Penderfyniad:

- dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau;
- mae'n rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru; a
- rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

## Ad-dalu costau'r Aelodau

**2.** Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd yn adolygu'r symiau sydd ar gael i'r Aelodau i sicrhau eu bod yn parhau'n ddigonol i ganiatáu i'r Aelodau gyflawni eu dyletswyddau.

**3.** Yn hanesyddol, mae’r symiau hyn wedi cael eu cynyddu’n unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Medi bob blwyddyn. Caiff y Bwrdd ddefnyddio dyddiad gwahanol o ran y Mynegai, ac mae wedi gwneud hynny o'r blaen. Y rhesymeg dros uwchraddio'r symiau hyn yn unol â ffigur y Mynegai ar gyfer mis Medi yw bod Llywodraeth y DU yn defnyddio hyn wrth bennu’r cynnydd o ran buddion a phensiynau.

**4.** Eleni, mae'r Bwrdd yn ymwybodol unwaith eto o'i gyfrifoldeb i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer Aelodau yn ddigonol i dalu eu costau, ac i ddiogelu gwerth am arian i drethdalwyr Cymru ar yr un pryd. Yn ddiweddar, mae chwyddiant wedi parhau i fod yn uwch na thargedau Llywodraeth y DU ond mae wedi dechrau gostwng a disgwylir iddo barhau i ostwng yn ystod 2024-25. Am y rheswm hwn, mae'r Bwrdd yn bwriadu cynyddu'r symiau hyn yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr 2024, y rhagwelir y bydd hyn yn c5%. Bydd hyn yn golygu y bydd yr Aelodau yn cael dyraniad sy’n fwy cyfredol i baratoi eu cyllidebau ar gyfer 2024/25.

**5.** Mae gan yr Aelodau hawl hefyd i hawlio costau cyflogau eu staff. Mae cyflogau staff yr Aelodau yn cael eu haddasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol â’r newid yn Enillion Canolrif gros cyflogeion amser llawn yng Nghymru yn ôl yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)[3]rhwng mis Ebrill y flwyddyn honno a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol. Mae codiadau

[3] Arolwg blynyddol o oriau ac enillion | LLYW.CYMRU

cyflog wedi bod yn destun cap o 3% a choler o 0%, fel y nodir ym mharagraff 7.3.2. o'r Penderfyniad.

## System symlach a mwy tryloyw

**6.** Mae'r Bwrdd wedi dechrau nifer o adolygiadau thematig i gyflawni ei amcanion strategol. Un o'r rhain yw'r adolygiad thematig symleiddio, o dan arweiniad Hugh Widdis, sy'n aelod o'r Bwrdd. Nod yr adolygiad hwn yw cyflawni amcan y Bwrdd i sicrhau:

- Penderfyniad Symlach: symleiddio'r Penderfyniad i ddarparu hyblygrwydd i Aelodau i bennu eu blaenoriaethau eu hunain, gyda mesurau diogelwch cymesur, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Senedd.

**7.** Mae'r adolygiad wedi nodi nifer o newidiadau a allai ei gwneud yn haws i Aelodau a'u staff ddeall pa gyllid fydd ar gael a sut i'w hawlio, ac i Gomisiwn y Senedd gymhwyso'r drefn yn effeithlon, yn ddarbodus a gyda llai o risg o anghytuno.

**8.** Mae'r awgrymiadau a wnaed yn sgil yr adolygiad hwn hefyd yn sail i gynigion yn yr ymgynghoriad hwn.

**9.** Mae'r Bwrdd hefyd wedi cael awgrymiadau ar gyfer cynigion gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd i ddarparu rhywfaint o hyblygrwydd a cheisio lleihau'r baich gweinyddol ar Aelodau a'u staff, a lywiwyd gan waith swyddogion Comisiwn y Senedd ac adborth gan yr Aelodau a'u staff.

# Cynigion

## Pennod 2: Rheolau cyflwyno ceisiadau

Mater o dan sylw: Rheolau cyflwyno ceisiadau

**10.** Wrth wneud ceisiadau i hawlio am gostau sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau, mae'n ofynnol i Aelodau gyflwyno derbynebau am y costau y maent wedi'u hysgwyddo. Yn unol â pharagraff 2.3.8. yn y Penderfyniad, mae'n "rhaid" i Aelodau gyflwyno'r rhain o fewn tri mis, oni bai bod amserlen wahanol yn cael ei rhoi, er enghraifft, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol neu fod yr Aelod yn rhoi "cyfiawnhad eithriadol". Mae'r paragraff yn mynd ymlaen i roi mwy o ddisgresiwn, gan nodi os nad oes gan Aelod "gyfiawnhad rhesymol", y "gall" hynny arwain at wrthod y cais.

**11.** Ar hyn o bryd, mae perygl y gallai'r geiriad hwn greu dryswch. Er enghraifft, y defnydd o'r geiriau "rhaid" a "gall" yn yr un paragraff, ac yn yr un modd, y ddau gyfeiriad at "gyfiawnhad rhesymol".

**12.** Gellir gwneud y geiriad yn gliriach drwy ei ddiwygio fel a ganlyn:

*'Rhaid i'r ceisiadau gael eu cyflwyno o fewn tri mis ar ôl diwedd y mis y mae'r gwariant yn perthyn iddo, oni bai bod amserlen wahanol yn cael ei rhoi gan y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau (er enghraifft ar ddiwedd y flwyddyn ariannol) neu oni bai bod yr Aelod yn gallu rhoi* ***cyfiawnhad eithriadol*** ~~rhesymol~~*. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes angen talu'n uniongyrchol i gyflenwr, er mwyn i'r taliad gael ei wneud i'r cyflenwr yn unol â pholisi Comisiwn y Senedd. Os cyflwynir cais yn hwyr (ar ôl tri mis), heb gyfiawnhad* ~~*rhesymol, gall hynny*~~ *eithriadol, bydd hynny'n arwain at wrthod y cais. Aelodau o'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau a fydd yn asesu a yw'r rhesymau dros geisiadau hwyr yn ddigonol, a gallant gyfeirio achosion lle ceir amheuaeth neu achosion lle ceir materion newydd neu ddadleuol at y Prif Weithredwr a'r Clerc i gael eu penderfynu.*

**13.** Ym mhob achos, ystyrir bod yr amserlen tri mis i wneud cais yn rhesymol. Y gobaith yw y bydd y newid hwn nid yn unig yn gwneud y broses ar gyfer cyflwyno ceisiadau yn gliriach, ond y bydd hefyd yn fuddiol at ddibenion cyllidebu. Bydd yr Aelodau'n gallu cyflwyno ceisiadau yn hwyrach na thri mis ar ôl diwedd y mis y mae'r gwariant yn perthyn iddo os gallant roi cyfiawnhad eithriadol.

**14.** *Cynnig 1: Newid geiriad paragraff 2.3.8. sy'n ymwneud â'r amserlenni y mae'n rhaid i Aelodau gyflwyno eu ceisiadau am ad-daliad yn unol â hwy. Byddai'r newid yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ddangos 'cyfiawnhad eithriadol' yn hytrach na 'chyfiawnhad rhesymol' dros*

*gyflwyno cais yn hwyr. Hefyd, cynigir diwygio'r paragraff i egluro 'y bydd' ceisiadau hwyr yn cael eu gwrthod, er bod gan Aelodau yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw o hyd.*

## Pennod 3: Tâl yr Aelodau

### Mater o dan sylw: Cyflogau'r Aelodau

**15.** Dylid nodi y bydd cyflogau'r Aelodau yn cynyddu 3% yn unol â'r mecanwaith 'cap a choler' ym mharagraff 3.2.2., fel y penderfynwyd yn flaenorol ar gyfer y Chweched Senedd.

**16.** Caiff cyflogau'r Aelodau eu haddasu'n flynyddol yn unol â ffigur ASHE y flwyddyn flaenorol, fel y'i nodir ym mharagraff 3.2.1. o'r Penderfyniad. Mae'r Penderfyniad hefyd yn darparu mecanwaith 'cap a choler' ym mharagraff 3.2.2. i sicrhau na fydd cyflogau yn cynyddu nac yn gostwng mwy na 3%.

**17.** Cyflog sylfaenol Aelod yw £69,958. Bydd cynnydd o 3% yn arwain at gyflog sylfaenol o £72,056, wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf. Bydd y cynnydd canrannol hwn hefyd yn berthnasol i gyflogau Deiliaid Swyddi Ychwanegol, fel y'u nodir ym mharagraff 3.1.4. o'r Penderfyniad.

## Pennod 3A: Cymorth i Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal plant a chyfrifoldebau gofal eraill

### Mater o dan sylw: Cyfrifoldebau gofal

**18.** Caiff Aelod hawlio ad-daliad costau hyd at uchafswm o £327 y mis ar gyfer gofalu am ei blant neu oedolion dibynnol o dan baragraff 3A.3.1.

**19.** *Cynnig 2: Cynyddu'r swm y gellir ei ad-dalu i Aelodau am gost gofal plant a chyfrifoldebau gofal eraill, fel y'u nodir ym mharagraff 3A.3.2., yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £5 agosaf y mis.*

## Pennod 4: Gwariant ar Lety Preswyl

### Mater dan sylw: llety dros nos yn ardal Caerdydd

**20.** Mae cyfraddau Gwariant ar Lety Preswyl fel arfer yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y Bwrdd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Mae'r cyfraddau hyn yn caniatáu i Aelodau dalu'r costau ychwanegol o aros dros nos i ffwrdd o'u prif gartrefi pan fyddant ar fusnes y Senedd.

**21.** Mae Adran 4.3 o'r Penderfyniad yn caniatáu i Aelodau o'r "ardal ryngol" hawlio hyd at £7,920 y flwyddyn am lety dros nos yn ardal Caerdydd. Yr uchafswm y gellir ei hawlio ar gyfer bob noson o aros mewn gwesty (gan gynnwys brecwast a pharcio) yw £110, neu £174 yn

Llundain (gweler paragraff 4.5.5. o’r Penderfyniad). Gellir mynd y tu hwnt i’r terfyn hwn o dan amgylchiadau eithriadol, gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Gomisiwn y Senedd.

**22.** Mae'r Bwrdd wedi trafod tystiolaeth gan Aelodau am yr anawsterau y maent wedi'u profi wrth ddod o hyd i westy addas o fewn yr uchafswm y caniateir ei hawlio, yn enwedig pan fo gwestai yn cynyddu eu prisiau pan fydd digwyddiadau ar raddfa fawr yng Nghaerdydd. Ar y cyfan, fodd bynnag, roedd y Bwrdd o'r farn bod y swm, gyda chynnydd i ystyried chwyddiant, yn parhau'n briodol.

**23.** Amlinellir cynigion ychwanegol ynghylch taliadau am westai a chynnig mwy o hyblygrwydd yn ystod cyfnodau prysur isod.

**24.** *Cynnig 3: Cynyddu'r swm ym mharagraff 4.3.1. y caiff Aelodau – y mae eu cartrefi yn yr ardal fewnol, neu'r ardal ryngol – ei hawlio am lety dros nos. Bydd y ffigur newydd yn cynyddu yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf.*

## Mater o dan sylw: Llety dros nos i Aelodau o'r ardal allanol

**25.** Ar hyn o bryd, mae Aelodau y mae eu prif gartrefi wedi'u lleoli yn yr ‘ardal allanol’ yn gallu hawlio costau mewn perthynas ag eiddo yn ardal Caerdydd, hyd at uchafswm o £11,280 y flwyddyn neu £940 y mis. At hynny, caiff Aelodau hawlio costau cysylltiedig fel treth gyngor (hyd at Fand F y Dreth Gyngor), biliau cyfleustodau, trwydded deledu, darpariaeth band eang ac ati yn ogystal â rhent (gan gynnwys unrhyw dâl rheoli neu rent tir). Nid oes terfyn uchaf ar y costau ychwanegol hyn.

**26.** Er mwyn llywio'r adolygiad blynyddol o Gostau Llety Preswyl yr “ardal allanol”, mae'r Bwrdd yn trafod ystod o wybodaeth i ddeall cyfradd newid y cynnydd o ran prisiau rhenti preswyl. Hynny yw, mae Gwasanaeth Ymchwil Comisiwn y Senedd yn dadansoddi costau rhent misol ar gyfer fflatiau un a dwy ystafell wely yn ardal Bae Caerdydd.

**27.** Yn sgil y dadansoddiad ar gyfer y flwyddyn hyd at 19 Hydref 2023, heb gynnwys y 10% drutaf o fflatiau, nodwyd fel a ganlyn:

- cynyddodd nifer yr eiddo newydd un ystafell wely a hysbysebwyd i’w rhentu yn ardal Bae Caerdydd tua 11% o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol;
- y pris a hysbysebwyd ar gyfer dwy ran o dair o’r eiddo un ystafell wely oedd £940 y mis neu lai yn ystod y cyfnod hwn;

- mae’r tueddiadau yn ystod y flwyddyn yn awgrymu bod cyfradd y cynnydd wedi gostwng yn hytrach na chynyddu.

**28.** Mae Zoopla yn nodi y bu cynnydd ym mhris yr eiddo rhent newydd yn ardal Caerdydd ar gyfer y 12 mis hyd at fis Medi 2023 o 11.2%. Y ffigur ar gyfer Cymru yw 10.2% a’r ffigur ar gyfer y DU yw 10.3%. Disgwylir cynnydd o 9% yn gyffredinol ar gyfer 2023 a fydd yn arafu i 5-6% yn 2024.

**29.** Yn y Mynegai Prisiau Rhentu Tai Preifat (data arbrofol) ar brisiau rhentu preifat, gan gynnwys llety presennol ar osod, nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol gynnydd o 6.9% yn y 12 mis hyd at fis Medi 2023

**30.** Mae Homelet, sef y corff sy’n gyfrifol am y data y mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyfeirio atynt yn y cyhoeddiad data rhentu misol, wedi nodi bod chwyddiant blynyddol wedi arafu am bedwar mis yn olynol ar gyfer tenantiaethau newydd yng Nghymru, gyda’r chwyddiant blynyddol ar gyfer llety newydd ar osod yn arafu i 7.3% yn y 12 mis hyd at fis Medi 2023.

**31.** Bu'r Bwrdd yn trafod tystiolaeth am y llety sydd ar gael i’w rhentu yn ardal Caerdydd. Cydnabu'r Bwrdd y dystiolaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r cynnydd ym mhrisiau rhent preifat o 6.9%, a hefyd y ffaith bod dwy ran o dair o eiddo un ystafell wely yn cael eu hysbysebu am £940 y mis neu lai a bod y symiau y gellir eu hawlio yn y Penderfyniad bob amser wedi cynyddu yn ôl yr un gyfradd yn y gorffennol. Am y rheswm hwn, o ran Aelodau y mae eu cartrefi yn yr ardal allanol ac sy'n dymuno rhentu eiddo yn ardal Caerdydd, y cynnig yw cynyddu'r swm y gallant ei hawlio yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer mis Ionawr.

**32.** *Cynnig 4: Cynyddu'r swm blynyddol, ym mharagraff 4.4.3.(a), y caniateir ei hawlio am lety dros nos i Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal allanol, yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £5 agosaf y mis*.

## Mater o dan sylw: Ad-dalu costau ychwanegol y gellir mynd iddynt o ganlyniad i ofalu am rywun sy'n ddibynnol

**33.** Mae darpariaeth o dan baragraff 4.4.3.(h) i Aelodau hawlio hyd at £1,670 i ddarparu ar gyfer y gost uwch ar gyfer llety addas os bydd Aelod yn gofalu am rywun sy'n ddibynnydd ac sy'n preswylio fel arfer gyda’r Aelod, yn ychwanegol at y swm y caniateir ei hawlio ar gyfer rhentu llety. Er mwyn sicrhau y gall Aelodau hawlio'r costau sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau, mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r swm hwn yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr 2024.

**34.** *Cynnig 5: Cynyddu'r swm ym mharagraff 4.4.3.(h) y caiff Aelodau yn yr ardal allanol ei hawlio mewn cysylltiad â chyfrifoldebau gofal yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £5 agosaf.*

## Mater o dan sylw: Costau adnewyddu hanfodol

**35.** Caiff Aelodau sy'n gwneud cais o dan y trefniadau trosiannol ym mharagraff 4.4.9. o'r Penderfyniad hawlio swm nad yw'n fwy na £882 o dan baragraff 4.4.10. i dalu am waith atgyweirio hanfodol i'w heiddo. Dim ond o dan y trefniadau trosiannol y mae'r swm hwn ar gael i Aelodau, ac ni chafwyd unrhyw geisiadau eleni na'r llynedd.. Mae'r Bwrdd wedi trafod y swm hwn i sicrhau ei fod yn briodol ac mae'n bwriadu ei gynnal ar y lefel bresennol.

*Cynnig 6: Cynnal y swm y gellir ei hawlio ar gyfer costau adnewyddu hanfodol, ym mharagraff 4.4.10., ar £882.*

## Mater o dan sylw: Costau llety dros nos

**36.** Gall Aelodau hawlio cost aros mewn gwesty y tu allan i ardal Caerdydd os bydd ei angen mewn cysylltiad â chyflawni eu dyletswyddau, os bydd Comisiwn y Senedd wedi cytuno i hynny ymlaen llaw, o dan adran 4.5. Y cyfraddau yw £174 ar gyfer Llundain a £110 mewn mannau eraill.

**37.** Trafododd y Bwrdd y cyfraddau i sicrhau eu bod yn parhau'n briodol. Yn benodol, clywodd y Bwrdd adborth gan yr Aelodau y gall fod yn anodd dod o hyd i westy yn Llundain o fewn y gyfradd uchaf ar fyr rybudd. Trafododd y Bwrdd dystiolaeth a oedd yn dangos bod digon o westai ar gael yn Llundain o fewn y gyfradd uchaf, a bod llawer mwy o ddewis ar gael os oes modd cynllunio ymlaen llaw, er bod y Bwrdd yn cydnabod na fydd hyn bob amser yn bosibl. Y cynnig yw cynyddu'r cyfraddau uchaf ar gyfer aros mewn gwestai y tu allan i ardal Caerdydd i ystyried chwyddiant.

**38.** Dylid darllen hyn ochr yn ochr â'r cynnig nesaf a fydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd, gan na fydd y gyfradd dros nos ddiwygiedig bellach yn cynnwys brecwast na pharcio, y gellir gwneud cais i hawlio ad-daliad amdanynt, os bydd angen, mewn rhannau eraill o'r Penderfyniad.

**39.** *Cynnig 7: Cynyddu'r swm, ym mharagraff 4.4.5., y caniateir ei hawlio am lety dros nos y tu allan i ardal Caerdydd yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf.*

## Mater o dan sylw: Peidio â chynnwys costau brecwast a pharcio yn y cyfraddau ar gyfer llety a chaniatáu cost gyfartalog fesul noson am lety dros nosweithiau olynol

**40.** Mae'r Bwrdd wedi cael tystiolaeth gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd sy'n nodi bod y costau a wynebir gan Aelodau yn aml yn fwy na'r gyfradd uchaf fesul noson am fod y gyfradd honno yn cynnwys costau brecwast a pharcio, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt wedyn gyflwyno

cais ymlaen llaw yn nodi y bydd cost eu harhosiad yn uwch na'r gyfradd uchaf. Yn aml, mae'r ceisiadau hyn am symiau bach iawn, a byddai'n well pe bai'r adnoddau ar gyfer ymdrin â hwy yn cael eu defnyddio at ddibenion eraill.

**41.** Yn ogystal â'r cynnig i gynyddu'r terfyn yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr, bwriedir hefyd sicrhau ei bod yn haws i Aelodau hawlio costau aros mewn gwesty o fewn y terfyn, drwy beidio â chynnwys costau ychwanegol fel brecwast a pharcio a thrwy gyfrif pris yr ystafell yn unig. Gellir hawlio brecwast a pharcio ar wahân, os bydd angen, drwy gyllidebau eraill sydd ar gael a nodir yn y Penderfyniad.

**42.** At hynny, mae achlysuron pan fydd Aelodau yn trefnu mwy nag un noson mewn gwesty a bod cost wahanol ar gyfer pob noson. Gall hyn arwain at sefyllfa lle mae un o'r nosweithiau'n costio mwy na'r uchafswm a ganiateir ond nad yw'r noson arall, e.e. pan fo'r noson gyntaf yn costio £120 ac mae'r ail noson yn costio £80. Er bod cost gyfartalog aros mewn gwesty o fewn y gyfradd a ganiateir, bydd angen i'r Aelod ofyn am ganiatâd Comisiwn y Senedd o hyd i hawlio cost yr ystafell sy'n uwch na'r uchafswm o £110.

**43.** Am y rheswm hwn, mae'r Bwrdd yn cynnig diwygio'r Penderfyniad er mwyn sicrhau bod yr uchafswm y caiff Aelod ei hawlio am aros mewn gwesty fesul noson ym mharagraff 4.5.5. yn gymwys i gost gyfartalog fesul noson arhosiad mewn gwesty, yn hytrach na'r gost am nosweithiau unigol yn olynol.

**44.** *Cynnig 8: Diwygio cost aros dros nos yn adran 4.5 er mwyn dangos y cyfraddau ar gyfer cost ystafell yn unig heb gynnwys costau brecwast a pharcio. Hefyd, diwygio'r Penderfyniad er mwyn sicrhau bod yr uchafswm y gellir ei ad-dalu i Aelod am aros mewn gwesty fesul noson ym mharagraff 4.5.5. yn gymwys i gost gyfartalog fesul noson arhosiad mewn gwesty, pan fydd nosweithiau olynol yn cael eu harchebu mewn un trafodiad, yn hytrach na'r gost am nosweithiau unigol.*

## Mater o dan sylw: Aros dros nos y tu allan i ardal Caerdydd

**45.** Mae'r Bwrdd hefyd wedi cael tystiolaeth gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd sy'n awgrymu, os na all Aelod ddod o hyd i westy yn ardal Caerdydd am resymau cost neu argaeledd, y byddai caniatáu i Aelodau aros y tu allan i ardal Caerdydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Aelodau. Mae'n mynd yn anoddach dod o hyd i lety dros nos ar adegau pan fo gwestai'n cynyddu eu prisiau, er enghraifft, ar gyfer digwyddiadau mawr a gynhelir yng Nghaerdydd ar ddiwrnodau eistedd y Senedd.

**46.** Gall Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal fewnol hawlio am aros mewn gwesty yn ardal Caerdydd o dan adran 4.2 o dan amgylchiadau eithriadol. Ar hyn o bryd, gall Aelodau y mae eu cartrefi yn yr ardal ryngol hawlio costau gwestai hyd at uchafswm o £7,920 y flwyddyn a

hyd at uchafswm o £110 y noson, o dan adran 4.3, ac, fel y nodir uchod, bwriedir cynyddu hyn yn unol â’r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr. Gallant ofyn am gymeradwyaeth gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd i fynd y tu hwnt i’r pris hwn o dan amgylchiadau eithriadol o dan baragraff 4.3.2. Ar hyn o bryd gall Aelodau y mae eu cartrefi yn yr ardal allanol hawlio’r gost am aros mewn gwesty o dan baragraff 4.4.8., hyd at uchafswm o £11,280 (yn lle hawlio am lety rhent), a’r cynnig yw cynyddu’r swm hwn yn unol â’r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr fel y nodir uchod.

**47.** Gall unrhyw Aelod wneud cais i hawlio am aros mewn gwesty y tu allan i ardal Caerdydd o dan baragraff 4.5.2. ar unrhyw adeg. Nid yw'r Penderfyniad yn atal Aelod rhag aros y tu allan i ardal ddiffiniedig Caerdydd pan fo’n bresennol yn y Senedd yn ystod wythnos eistedd. O ran Aelodau y mae angen iddynt aros y tu allan i ardal Caerdydd pan fo gwestai fforddiadwy yn brin, byddai'r cynnig hwn yn golygu y gallant hawlio'r gost honno o dan adran 4.2 (ardal fewnol) neu 4.3 (ardal ryngol) neu baragraff 4.4.8. (ardal allanol).

**48.** Y gobaith yw y bydd y cynnig hwn i wneud y Penderfyniad yn gliriach yn lleihau'r baich ar staff yr Aelodau pan fyddant yn chwilio am lety addas ar adegau pan fo prisiau’r gwestai yn uchel.

**49.** *Cynnig 9: Gwneud y rheolau ynghylch aros mewn gwesty yn gliriach fel y gall Aelodau hawlio am gost gwesty y tu allan i ardal Caerdydd os na allant ddod o hyd i westy yn ardal Caerdydd am resymau cost neu argaeledd yn ystod wythnos eistedd, at ddibenion cymryd rhan ym musnes y Senedd. Gellir hawlio'r gost hon o dan adrannau 4.2 (ardal fewnol) neu 4.3 (ardal ryngol) neu baragraff 4.4.8. (ardal allanol), yn ddarostyngedig i'r meini prawf arferol.*

## Dileu'r gofyniad i gael caniatâd ymlaen llaw i aros y tu allan i Gymru o fewn y DU

**50.** Mae'r adolygiad thematig symleiddio wedi nodi nifer o reolaethau a allai fod yn ddiangen yn y Penderfyniad. O dan baragraff 4.5.3.(a), mae'n ofynnol i Aelodau ofyn am ganiatâd Comisiwn y Senedd cyn mynd i gostau ar gyfer aros dros nos y tu allan i Gymru, o fewn y DU. Yn yr un modd, mae'n ofynnol i Aelodau ofyn am ganiatâd ymlaen llaw ar gyfer teithio estynedig ym mharagraff 5.11.1.

**51.** Am sawl rheswm, mae angen i Aelodau deithio y tu allan i Gymru fel rhan o'u dyletswyddau. Er enghraifft, mae angen trafod sut y mae polisi datganoledig yn rhyngweithio â materion a gadwyd yn ôl, neu wasanaethau a ddarperir i'w hetholwyr ar draws ffiniau. Mae nifer y ceisiadau wedi cynyddu ac maent yn aml yn dod i law ar fyr rybudd, ac mae’n bosibl y bydd angen treulio cyfnod anghymesur o amser arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu datrys mewn pryd i'r Aelodau wneud trefniadau. Yng nghyfarfodydd y Bwrdd â Grŵp Cynrychiolwyr yr Aelodau hefyd, mae’r Aelodau wedi nodi bod y mater hwn yn rheolaeth ac yn faich gweinyddol diangen.

**52.** Pe bai'r gofyniad hwn yn cael ei ddileu, gallai leihau'r baich gweinyddol ar staff yr Aelodau pan fyddant yn gwneud trefniadau ar ran yr Aelodau. Byddai'r egwyddorion cymorth ariannol ym Mhennod 1 o'r Penderfyniad yn parhau i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod yr Aelodau'n atebol o ran yr ymweliadau hyn.

**53.** *Cynnig 10: Dileu'r gofyniad i Aelod ofyn am gytundeb ymlaen llaw gan Gomisiwn y Senedd cyn mynd i gostau am deithio ac aros dros nos y tu allan i Gymru, o fewn y DU.*

## Mater o dan sylw: Teithio rhyngwladol gan grwpiau o Aelodau

**54.** Gall Aelodau deithio y tu allan i'r DU, gyda chytundeb ymlaen llaw gan Gomisiwn y Senedd, o dan baragraff 5.15.1. Mae'n ofynnol i Aelodau gyflwyno achos busnes i Gomisiwn y Senedd sy'n egluro sut y byddai'r ymweliad o fudd i'r unigolyn yn ei rôl fel Aelod, sut y byddai o fudd i'r Senedd a sut y byddai'n ei alluogi i hyrwyddo Cymru a gwaith y Senedd.

**55.** Yn yr un modd, mae'n ofynnol i Aelodau geisio cytundeb ymlaen llaw cyn mynd i gostau llety y tu allan i'r DU, o dan baragraff 4.5.3.

**56.** Y cynnig yw gwneud darpariaeth i Aelodau allu cyflwyno un achos busnes ar gyfer costau teithio a llety rhyngwladol nifer o Aelodau, yn hytrach na bod angen i bob Aelod gyflwyno achos busnes unigol pan fyddant yn mynd ar yr un ymweliad. Byddai'r cais yn dal i gael ei asesu yn erbyn egwyddorion gwerth am arian a rhesymoldeb fel rhan o'r broses gymeradwyo.

**57.** *Cynnig 11: Diwygio'r gofynion ar gyfer hawliadau teithio a llety rhyngwladol i ganiatáu i Aelod gyflwyno un achos busnes ar gyfer ymweliad y mae mwy nag un Aelod yn mynd arno, o dan baragraffau 4.5.3. a 5.15.2., yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i bob Aelod gyflwyno achos busnes unigol.*

## Llety ar gyfer busnes y pwyllgorau

**58.** Daw'r unig gyfeiriad at gost llety ar gyfer busnes un o'r pwyllgorau ym mharagraff 4.5.4.:

*'Pan fo'r angen i aros dros nos yn codi mewn perthynas â busnes un o bwyllgorau'r Senedd, mae'r cyfeiriadau ym mharagraff 4.5.3 at y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau i'w darllen fel cyfeiriadau at swyddogion y pwyllgor perthnasol.'*

**59.** Mater i Gomisiwn y Senedd yw'r trefniadau ac ad-daliadau ar gyfer llety mewn perthynas â busnes y pwyllgorau ac nid ydynt yn rhan o gwmpas y Penderfyniad. Er mwyn gwneud hynny'n gliriach, byddai'n ddefnyddiol nodi'n benodol na ellir hawlio cost llety ar gyfer busnes pwyllgor

o dan y Penderfyniad, yn debyg i baragraff 5.16.1.A sy'n nodi'n benodol mai mater i Gomisiwn y Senedd yw teithio ar fusnes pwyllgor ac nad yw'n rhan o gwmpas y Penderfyniad.

**60.** Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r trefniadau sydd eisoes ar waith, ond mae'n nodi'n glir mai mater i'r Comisiwn yw teithio a llety ar gyfer busnes pwyllgor. Mae Aelodau'n aml yn cynnal cyfarfodydd neu ymweliadau ychwanegol o amgylch digwyddiad pwyllgor. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar allu'r Aelodau i hawlio costau teithio a llety ychwanegol os ydynt yn dewis cynnal gweithgareddau ychwanegol cyn neu ar ôl ymweliad Pwyllgor.

**61.** *Cynnig 12: Datgan yn glir mai mater i Gomisiwn y Senedd yw trefniadau ac ad-daliadau ar gyfer costau llety ar gyfer busnes y pwyllgorau ac nad yw'r materion hyn yn rhan o gwmpas y Penderfyniad, gan adlewyrchu'r trefniadau sydd eisoes ar waith.*

## Pennod 6: Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr

**62.** Caiff Aelodau wneud cais am ad-daliad ar gyfer 'unrhyw gostau rhesymol' sy'n ymwneud â rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr, o dan y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr. Fel y nodir ym mharagraff 6.1.2 o'r Penderfyniad, ni chaiff Aelod hawlio mwy na £25,610 pan fo gan yr Aelod swyddfa etholaeth, neu £10,460 pan fo'r Aelod yn gweithio'n gyfan gwbl o'r swyddfa ym Mae Caerdydd.

**63.** Mae'r diffiniad hwn yn cwmpasu costau swyddfa megis rhent, trethi a chyfleustodau, datblygu gwefan a chostau rhedeg, hysbysebu, ffonau symudol a threuliau cyfreithiol. Ers 2021-22, mae hefyd wedi cwmpasu pob math o gostau postio ac argraffu. Ers 2022-23, mae hefyd wedi cwmpasu costau cyfathrebu ac ymchwil, y darparwyd amdanynt yn flaenorol drwy'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu.

**64.** Ym mis Rhagfyr 2022, penderfynodd y Bwrdd gynyddu terfyn uchaf y swm sydd ar gael gan £1,000 i ystyried y costau uwch yr oedd Aelodau'n eu hwynebu, fel costau ynni uwch a thaliadau sefydlog. Roedd y cynnydd ar gael i bob Aelod gan gynnwys y rhai nad ydynt yn rhentu swyddfa etholaeth neu swyddfa ranbarthol ar hyn o bryd.

**65.** Trafododd y Bwrdd dystiolaeth o'r pwysau chwyddiant parhaus yn yr economi ac, yn benodol, y ffaith bod prisiau ynni a thaliadau sefydlog yn debygol o barhau'n uchel oherwydd y newid yn y cap ar brisiau ynni o'r Flwyddyn Newydd. Am y rheswm hwn, y cynnig yw cynyddu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i ystyried chwyddiant.

**66.** *Cynnig 13: Cynyddu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, ym mharagraff 6.1.2., yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr 2024, wedi'i dalgrynnu i'r £10 agosaf.*

### Mater o dan sylw: Cyflenwyr cymeradwy offer a deunyddiau swyddfa

**67.** Mae'r Penderfyniad yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau brynu neu logi llungopïwyr gan gyflenwyr cymeradwy o dan baragraff 6.4.1. Cyflwynwyd y gofyniad hwn yn rhannol i ddiogelu rhag cytuno ar gontractau nad oeddent yn cynnig gwerth am arian, er enghraifft ymestyn y tu hwnt i hyd tymor y Senedd ac ysgwyddo costau diangen.

**68.** Mae'r adborth i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn awgrymu y byddai'n well gan Aelodau ddod o hyd i gontractau a phryniannau o'r fath yn lleol. Os caiff y gofyniad hwn ei ddileu, bydd angen i Aelodau ddangos gwerth am arian o hyd a gofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Gomisiwn y Senedd ar gyfer pryniannau neu gontractau sy'n costio dros £1,500 fel y nodir ym mharagraff 2.3.3. o'r Penderfyniad. Bydd y diogelwch hwn yn sicrhau bod yr Aelodau'n parhau i flaenoriaethu gwerth am arian i drethdalwr Cymru, felly nid oes angen gofyniad penodol i ddefnyddio rhestr o gyflenwyr cymeradwy ar gyfer llungopïwyr.

**69.** *Cynnig 14: Dileu'r gofyniad i Aelodau brynu neu logi llungopïwyr gan gyflenwyr cymeradwy yn unig, ym mharagraff 6.4.1.*

## Pennod 7: Cymorth staffio ar gyfer Aelodau

### Mater o dan sylw: Cyflogau staff yr Aelodau

**70.** Mae cyflogau staff yr Aelodau yn cael eu haddasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol â'r newid yn Enillion Canolrif gros cyflogeion amser llawn yng Nghymru yn ASHE rhwng mis Ebrill y flwyddyn honno a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol, fel y nodir ym mharagraff 7.3.1. Mae codiadau cyflog wedi bod yn destun cap o 3% a choler o 0%, fel y nodir ym mharagraff 7.3.2.

**71.** Y ffigur diweddaraf o ran ASHE a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023 yw 5.7%.

**72.** Y Bwrdd sy'n pennu'r swm cyffredinol sydd ar gael i Aelodau ei hawlio ar gyfer costau staffio. Ar hyn o bryd, mae gan Aelod hawl i wneud cais am ad-daliad am gostau gwariant o hyd at uchafswm o £121,759.

**73.** Yn y Penderfyniad ar gyfer 2023/24, cafodd cyflogau staff yr Aelodau eu cynyddu hyd at yr uchafswm o 3%, a chytunodd y Bwrdd hefyd y byddai'r taliad costau byw o £600 yn cael ei gydgrynhoi o ran pob pwynt cyflog o 1 Ebrill 2024. Gwnaed y penderfyniad hwn ar sail y ffaith bod costau byw yn parhau'n uchel ac mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan Aelodau a staff cymorth yn sgil yr ymgynghoriad ar yr adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad, a natur a gwerth y rôl.

**74.** Er mwyn helpu i lywio'r penderfyniad ar addasu cyflogau staff yr Aelodau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, trafododd y Bwrdd y rhagolwg economaidd diweddaraf. Roedd hyn yn cynnwys tystiolaeth gan Fanc Lloegr a dadansoddiad a rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar chwyddiant, chwyddiant craidd, prisiau ynni, cyfraddau llog a chyfraddau morgeisi.

Clywodd y Bwrdd hefyd dystiolaeth ar dueddiadau o ran cyflogau yn y sector cyhoeddus ac yn genedlaethol, rhagolygon cynnyrch domestig gros a gwariant y sector cyhoeddus.

**75.** Mae'r Bwrdd hefyd wedi ymgysylltu â Phenaethiaid Staff a chynrychiolwyr yr undebau llafur, a chafwyd amrywiaeth o adborth gan aelodau'r undebau am bwysau costau byw a materion eraill.

**76.** Trafododd y Bwrdd y dystiolaeth hon ac mae'n cynnig datgymhwyso'r cap o 3% ar gyflogau staff yr Aelodau a dyfarnu codiad cyflog, yn seiliedig ar y taliad costau byw o £600 wedi'i gydgrynhoi (a fu'n destun ymgynghoriad ac y cytunwyd arno'n flaenorol gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2023) a ffigur ASHE, sef 5.7%.

**77.** Bydd hyn yn effeithio ar y pwyntiau cyflog fel a ganlyn:

| Band | Pwynt cyflog 1 | Pwynt cyflog 2 | Pwynt cyflog 3 | Pwynt cyflog 4 | Pwynt cyflog 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Pennaeth Staff | £44,865 | £47,132 | £49,517 | £52,022 | £54,661 |
| Uwch-gynghorwr | £40,845 | £42,904 | £45,074 | £47,349 | £49,752 |
| Band 1 | £30,520 | £33,195 | £36,123 | £39,318 | £42,811 |
| Band 2 | £26,153 | £28,704 | £31,520 | £34,169 | £38,039 |
| Band 3 | £23,742 | £25,532 | £27,462 | £29,546 | £31,798 |

**78.** Mae hyn yn gyfwerth â chynnydd canrannol o gymharu â phwyntiau cyflog Penderfyniad 2023-24 fel a ganlyn:

| Band | Pwynt cyflog 1 | Pwynt cyflog 2 | Pwynt cyflog 3 | Pwynt cyflog 4 | Pwynt cyflog 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Pennaeth Staff | 7.2% | 7.1% | 7.1% | 7.0% | 6.9% |
| Uwch-gynghorwr | 7.4% | 7.3% | 7.2% | 7.1% | 7.1% |
| Band 1 | 7.9% | 7.8% | 7.6% | 7.4% | 7.3% |
| Band 2 | 8.3% | 8.1% | 7.9% | 7.7% | 7.5% |
| Band 3 | 8.6% | 8.4% | 8.2% | 8.0% | 7.9% |

**79.** *Cynnig 15: Datgymhwyso'r cap ar gyflogau staff yr Aelodau ym mharagraff 7.3.2. a chynyddu'r tâl i staff yr Aelodau yn unol â ffigur yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) yng Nghymru, sef 5.7%, wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf. Byddai Lwfans Gwariant Staffio yr Aelodau, a nodir ym mharagraff 7.1.1., yn cynyddu o £121,759 i £130,602 i adlewyrchu'r dyfarniad cyflog.*

## Mater o dan sylw: Cyflog Byw Gwirioneddol

**80.** Mae'r Bwrdd hefyd wedi trafod goblygiadau'r cyflog byw gwirioneddol. Caiff cyfraddau'r cyflog byw gwirioneddol eu cyfrifo'n annibynnol gan y Resolution Foundation[4] a'u cyhoeddi'n flynyddol gan y Living Wage Foundation. Mae'n seiliedig ar gyfuniad craidd o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ym marn pobl yn y DU i ddiwallu eu hanghenion bob dydd.

**81.** Clywodd aelodau'r Bwrdd fod y bwlch wedi bod yn lleihau dros y blynyddoedd diwethaf rhwng y cyflog blynyddol cyfatebol sy'n seiliedig ar y cyflog byw gwirioneddol a bandiau cyflog isaf staff yr Aelodau. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl staff yn cael o leiaf y cyflog byw gwirioneddol fel tâl ac mae eisoes wedi addasu Pwynt cyflog 1 Band 3 am weddill 2023-24 i gyd-fynd â'r cyflog byw gwirioneddol newydd.

**82.** Mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad o'r fframwaith cyflogau a graddfeydd staff cyn y Seithfed Senedd, a allai arwain at newidiadau parhaol maes o law, ond hyd nes y bydd y gwaith hwn yn dod i ben, mae'r Bwrdd yn cynnig sicrhau y bydd bandiau cyflog i staff yr Aelodau o leiaf yn bodloni lefel y cyflog byw gwirioneddol yn dilyn adolygiadau yn y dyfodol o'r cyflog byw gwirioneddol.

**83.** *Cynnig 16: Cynnwys darpariaeth yn y Penderfyniad i gynyddu'n awtomatig unrhyw bwynt cyflog staff sy'n is na'r cyflog byw gwirioneddol (fel y'i cyhoeddir yn flynyddol gan y Living Wage Foundation). Byddai'r ddarpariaeth yn darparu y dylid ystyried mai'r cyflog byw gwirioneddol yw'r gyfradd ar gyfer y pwynt cyflog hwnnw am weddill y flwyddyn ariannol, gan ddod i rym ar ddiwrnod cyntaf y mis yn dilyn y cyhoeddiad hwnnw.*

## Mater o dan sylw: Gweithio gartref

**84.** Gall Aelodau hawlio swm mewn cysylltiad â'r gost o dalu eu staff pan fyddant yn gweithio gartref o dan baragraff 7.9B.1. Rhaid i'r swm hwn gael ei dalu yn unol ag unrhyw ofynion a bennir gan CThEF. Y gost yw £6 yr wythnos neu £26 y mis ac nid yw ar sail pro rata.

**85.** Yn ystod Covid, cafodd trefniadau eithriadol eu rhoi ar waith gan CThEF, fel cyflwyno'r Lwfans Gweithio Gartref. Ers i'r cyfyngiadau a welwyd yn sgil COVID ddod i ben, mae'r swm hwn

---

[4] **Resolution Foundation • Analysis and action on living standards**

o arian wedi cael ei ddileu'n raddol ar y cyfan gan sefydliadau'r sector cyhoeddus. Er enghraifft, nid yw ar gael i staff yr Aelodau yn Senedd yr Alban na Senedd y DU, nac i staff Comisiwn y Senedd. Fodd bynnag, gall staff yr Aelodau hawlio rhyddhad treth ar gyfer gweithio gartref yn uniongyrchol gan CThEF.[5]

**86.** Mae’r gwaith o weinyddu hawliadau am y swm hwn o arian gan Aelodau, eu staff a staff y Comisiwn yn arwain at lwyth gwaith ychwanegol ar gyfer taliad sydd o werth cymharol fach ac sydd ar gael i nifer benodol o staff yn unig yn dibynnu ar eu lleoliad gwaith.

**87.** Bydd y ddau daliad costau byw ar wahân a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'r cynnydd o £600 i'r bandiau cyflog, a gaiff eu cydgrynhoi o fis Ebrill 2024, a'r cynnydd i gyflogau staff yn unol â chanran ASHE Cymru yn helpu i wrthbwyso cost gweithio gartref.

**88.** Gellir ystyried bod y dull hwn yn decach gan fod y codiad cyflog a'r dyfarniad costau byw ar gael i bob aelod o staff ni waeth ble y maent yn gweithio.

**89.** *Cynnig 17: Rhoi'r gorau i ganiatáu i Aelodau hawlio swm ar ran eu staff mewn cysylltiad â gweithio gartref, yn adran 7.9B., gan nodi bod taliad costau byw wedi'i ddyfarnu yn y flwyddyn ariannol hon o £600 ac y bydd taliad costau byw pellach o £600 yn cael ei ddyfarnu ym mis Ionawr 2024. Ystyrir bod hyn, ynghyd â'r cynnydd o £600 i'r bandiau cyflog, a gaiff ei gydgrynhoi o fis Ebrill 2024 ymlaen, a'r cynnydd i gyflogau staff yn unol â chanran ASHE Cymru , yn gyfraniad digonol tuag at wrthbwyso costau gweithio gartref.*

## Mater o dan sylw: Amser o’r gwaith ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus

**90.** Mae gan Aelodau hawl i wneud cais i gael ad-daliad o’r costau pan fydd eu staff yn cymryd amser i ffwrdd â thâl ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus fel gwasanaeth rheithgor, hyfforddiant gorfodol y lluoedd arfog neu waith di-dâl, fel cyflawni rôl llywodraethwr ysgol. Mae terfyn ar y swm y gellir ei hawlio o dan baragraff 7.9A.2. a chyfeirir at gyfnod treigl o 12 mis.

**91.** O ran pennu uchafswm o 15 diwrnod fesul pob cyfnod treigl o 12 mis, yn hytrach na phob blwyddyn ariannol, cafodd y Bwrdd gyngor y gallai gyfyngu’n anfwriadol ar yr hyblygrwydd sydd ar gael i staff yr Aelodau, er enghraifft wrth drefnu hyfforddiant gorfodol i filwyr wrth gefn y lluoedd arfog. Am y rheswm hwn, y cynnig yw sicrhau bod yr uchafswm diwrnodau yn cyd-fynd â’r flwyddyn ariannol.

[5] Gall staff wneud cais yn uniongyrchol i CThEF am ryddhad treth ar gyfer gweithio gartref

**92.** *Cynnig 18: Diwygio'r rheolau ar gyfer staff yr Aelodau sy'n ymwneud ag amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus o dan adran 7.9A.2. fel bod uchafswm y diwrnodau y gellir eu cymryd mewn blwyddyn yn cyd-fynd â'r flwyddyn ariannol, yn hytrach na chyfnod treigl o 12 mis.*

### Mater o dan sylw: Cyfraddau teithio a chynhaliaeth ar gyfer staff yr Aelodau

**93.** Yn y Penderfyniad, nodir y cyfraddau ar gyfer ceisiadau mewn cysylltiad â chostau teithio a llety ar gyfer Aelodau ond ni nodir y cyfraddau ar gyfer eu staff. Dim ond ym mharagraffau 5.21 i 5.23 y ceir cyfeiriadau at staff yr Aelodau, gan gyfeirio at nifer y siwrneiau gan staff rhwng ardal Caerdydd ac etholaeth yr Aelod y gall Aelod wneud cais i gael ad-daliad amdanynt, a'r dull talu.

**94.** Er mwyn gwneud y sefyllfa hon yn gliriach, os bydd aelod o staff yn mynd ar ymweliad gydag Aelod, cynigir y bydd Comisiwn y Senedd yn prosesu hawliad am gostau teithio a llety staff yn unol â'r cyfraddau ar gyfer Aelodau. Hynny yw, bydd y cyfraddau uchaf o ran gwestai, opsiynau teithio a chostau prydau bwyd yn cael eu cyfrifo yn yr un ffordd ar gyfer Aelodau a'u staff.

**95.** *Cynnig 19: Datgan bod y cyfraddau uchaf ar gyfer ceisiadau am gostau teithio ac aros dros nos mewn gwesty ar gyfer staff yr Aelodau yr un fath â'r cyfraddau ar gyfer Aelodau.*

## Pennod 8: Cymorth i'r pleidiau gwleidyddol

### Mater o dan sylw: cymorth i bleidiau gwleidyddol

**96.** Gall y pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd hawlio costau am gyflogi staff, talu costau fel costau teithio a chynhaliaeth, a chostau swyddfa, fel y nodir ym Mhennod 8 o'r Penderfyniad.

**97.** Y cyfanswm sydd ar gael y flwyddyn ariannol hon yw £1,089,640, a nodir ym mharagraff 8.2.1. o'r Penderfyniad. Caiff ei rannu rhwng y pleidiau gwleidyddol ac Aelodau nad ydynt yn rhan o grŵp gwleidyddol yn y Senedd, yn seiliedig ar y fformiwla a nodir yn adran 8.2 o'r Penderfyniad.

**98.** Defnyddir y rhan fwyaf o'r swm i dalu cyflogau staff y Grwpiau, ac mae'r mecanwaith 'cap a choler' ar godiadau cyflog hefyd yn berthnasol i'r cyflogau hyn ar hyn o bryd. Yn hanesyddol, mae'r Bwrdd wedi addasu'r gyfran a wariwyd ar gyflogau staff y Grwpiau yn flynyddol yr un faint, fesul canran, â'r cynnydd i gyflogau staff cymorth yr Aelodau, gyda'r gweddill yn cael ei gynyddu'n unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

**99.** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r swm sydd ar gael i'w wario ar gostau swyddfa i ystyried chwyddiant. Bydd y gweddill yn cael ei gynyddu yn unol â'r cynnydd cyflog y cytunir arno ar gyfer staff yr Aelodau, sy'n cynnwys dileu'r cap 3% a'r taliad costau byw wedi'i gydgrynhoi o

£600 y cytunwyd arno'n flaenorol ar y pwyntiau cyflog. Ar sail y gwariant gwirioneddol cyfartalog dros y ddwy flynedd ariannol lawn ddiwethaf, mae tua 13% yn cael ei wario ar gostau swyddfa ac 87% yn cael ei wario ar gyflogau staff.

**100.** *Cynnig 20: Cynyddu cyfran y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol, ym mharagraff 8.2.1., a gaiff ei gwario ar gyflogau staff yn unol â chyfradd ASHE Cymru, sef 5.7%, gan dalgrynnu'r swm i'r £1 agosaf (a'r taliadau costau byw wedi'u cydgrynhoi a bennwyd yn flaenorol o £600), a'r gyfran a gaiff ei gwario ar gostau swyddfa yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr 2024, gan dalgrynnu'r swm i'r £10 agosaf.*

# Cyflwyno ymateb

**101.** Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynigion, i helpu i lywio ei benderfyniadau terfynol ar newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2024/25.

**102.** Byddai'r Bwrdd hefyd yn croesawu eich sylwadau ar unrhyw effeithiau o safbwynt cydraddoldeb a allai ddeillio o gynigion yr ymgynghoriad, er enghraifft:

- a allai cynigion yr ymgynghoriad fod â goblygiadau i bobl sy'n nodi bod ganddynt unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010;
- a ellid newid cynigion yr ymgynghoriad i sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol i bobl sy'n nodi bod ganddynt unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**103.** Dylid nodi mai'r nodweddion gwarchodedig a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

**104.** Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd, mae croeso i chi ymateb yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, neu'r ddwy, a gofynnwn i sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg neu gynlluniau iaith Gymraeg ymateb yn unol â'u rhwymedigaethau eu hunain. Rhowch wybod i ni wrth gyflwyno ymateb os ydych yn bwriadu darparu cyfieithiad yn ddiweddarach.

**105.** Ymdrinnir â'r holl ymatebion yn unol â'n polisi preifatrwydd ac nid yw'r Bwrdd yn cyhoeddi ymatebion fel mater o drefn, er y gellir cynnwys ymatebion cryno neu safbwyntiau yn yr adroddiad a gyhoeddir ar yr adolygiad blynyddol (gweler adroddiad 2023-24 er gwybodaeth). Cadarnhewch a fyddai'n well gennych pe bai eich sylwadau neu'ch tystiolaeth yn ddienw os cânt eu cynnwys yn yr adroddiad adolygu blynyddol.

**106.** Dylech anfon unrhyw ymatebion at taliadau@senedd.cymru.

**107.** Er mwyn caniatáu cymaint o amser â phosibl i drafod yr ymatebion a'r penderfyniadau terfynol, ac i roi digon o amser i'r Aelodau a'u staff gyllidebu ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd, byddai'n dda gennym gael yr holl ymatebion erbyn 17.00, 26 Ionawr 2024 fan bellaf.

## Amserlen yr ymgynghoriad:

| Dyddiad | Camau i'w cymryd |
|---|---|
| 26 Ionawr 2024 | Yr ymgynghoriad yn dod i ben |
| 22 Chwefror 2024 | Y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn cyfarfod i drafod yr ymatebion |
| 14 Mawrth 2024 | Y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn cytuno ar y Penderfyniad ar gyfer 2024-25 |
| 1 Ebrill 2024 | Cyhoeddi'r Penderfyniad ar gyfer 2024-25 |